Cam 1: Penderfynu beth yw'r dibenion

Mae natur a chwmpas y dibenion yn y ddogfen lywodraethol yn cael eu hystyried fel y byddai **person rhesymol gyda gwybodaeth gefndir berthnasol** yn eu hystyried.

Dim ond yr hyn y **gellid ei wneud** o dan y diben sy'n cael ei ystyried.

Mae '**gwybodaeth gefndir berthnasol**' yn cynnwys popeth a fyddai'n effeithio ar y ffordd y byddai pob un o'r dibenion a nodwyd yn nogfen lywodraethol y sefydliad yn cael eu deall gan berson rhesymol. **Y dibenion yw'r hyn y byddai'r person rhesymol hwn yn ei ddweud yw'r dibenion.**

Nid yw'r hyn y mae'r sefydliad wedi bod yn ei wneud neu ei gyflawni (ei weithgareddau) ers iddo gael ei sefydlu yn berthnasol wrth lunio'r farn hon. Y rheswm am hyn yw oherwydd gallai'r gweithgareddau hynny fod o fewn neu beidio â bod o fewn cwmpas y diben. Yr hyn sy'n bwysig yw cwmpas **yr hyn a awdurdodir** gan bob diben.

Cam 2: Penderfynu a yw'r dibenion wedi'u cynnwys o fewn y disgrifiadau o ddibenion

Mae'r dibenion yn cael eu hystyried i sefydlu a yw popeth **y gellid ei wneud** o dan y diben naill ai:

- yn cael ei gydnabod fel rhywbeth sydd **wedi'i gynnwys o fewn** un neu ragor o'r disgrifiadau o ddibenion, neu
- yn gwneud hynny **drwy gyfatebiaeth**.

Os nad yw'n glir neu'n amlwg bod y dibenion wedi'u cynnwys o fewn y disgrifiadau o ddibenion yna gellir ystyried **tystiolaeth o'r gweithgareddau** y mae'r sefydliad wedi bod neu y bydd yn eu gwneud a **gwybodaeth gefndir berthnasol** er mwyn deall a yw popeth y **gellid ei wneud** o dan y diben **wedi'i gynnwys o fewn** y disgrifiad.

Nid yw hyn yn ateb y cwestiwn a yw'r diben yn elusennol ond yn hytrach a yw'n **gallu** bod yn elusennol **os yw er budd y cyhoedd**.

Ie

Cam 3: Penderfynu a yw pob un o'r dibenion er budd y cyhoedd

Mae pob un o'r dibenion yn cael ei ystyried i weld a yw er **budd y cyhoedd** drwy ystyried:

- yr **agwedd budd**, a'r
- **agwedd cyhoeddus** ar fudd cyhoeddus.

AC EITHRIO lleddfu tlodi a rhai dibenion atal tlodi, lle mae'r agwedd budd yn unig yn cael ei ystyried.

Os nad yw'n glir neu'n amlwg bod y dibenion er budd y cyhoedd, yna gellir ystyried **tystiolaeth o'r gweithgareddau** y mae'r sefydliad wedi bod neu y bydd yn eu cyflawni a **gwybodaeth gefndir berthnasol**.

Rhaid sefydlu:

- beth yw'r buddion a phwy sy'n cael budd,
- beth yw canlyniadau neu gasgliadau cyflawni'r diben,
- a yw'r dibenion yn cael eu cyflawni er budd y cyhoedd.

Mae'r cwestiynau hyn yn cael eu hateb drwy:

- edrych ar y dystiolaeth,
- beth sy'n cael ei ddangos gan y dystiolaeth honno, a
- thrwy gydnabod ffactorau synnwyr cyffredin amlwg syml - nid yw damcaniaethu neu haeriadau dadleuol neu wleidyddol yn ddigonol.

Na

Ddim yn elusennol

Ie

Elusennol